PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 4 | Ionawr 23, 2025 | 50c.

## Caersalem Pontyberem

### Adfent

Bu'n gyfnod prysur yng Nghaersalem yn ystod cyfnod yr Adfent a'r flwyddyn newydd. Ar fore Sul 15 Rhagfyr 2024 cynhaliwyd oedfa naw llith a charol o dan ofal plant, ieuenctid ac aelodau'r eglwys. Mor braf oedd cael dathlu ar y trydydd Sul yr Adfent enedigaeth yr Arglwydd Iesu.

### Cymdeithas

Yna ar nos Lun 6 Ionawr 2025 cynhaliwyd noson arbennig iawn gan Gymdeithas Criw Caersalem lle roedd Kevin Hughes o Bump Heol yn ŵr gwadd. Mae Kevin yn fab i Anne a Meirion Hughes ac wedi dilyn gyrfa lwyddiannus iawn fel deintydd. Yn dilyn ei ymddeoliad mae wedi meithrin y ddawn o arlunio a chanu'r gitâr. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni a diolch am ei gyfraniad.



## Cymrodoriaeth

Ym mis Rhagfyr cyfarfu gweinidogion ac arweinwyr eglwysi Cyfundeb Gorllewin Morgannwg am gymrodoriaeth yn Y Pantri yng Nghlydach.

Braf oedd rhannu straeon, chwerthin gyda'n gilydd a chael sgwrs. Roedd hwn yn gyfle i ni weld sut y gallem ddatblygu hyn hyd yn oed ymhellach wrth symud ymlaen fel bod cymrodoriaeth reolaidd ar gael.



*Y Parchedigion Gareth Morgan Jones o'r Allt-wen a Soar Maes yr Haf; Rhys Locke o Saron y Creunant; Jill Hayley Harris, Bethel Sgeti, Trinity Abertawe a'r Tabernacl, Dewi Myrddin a Dr Fiona Gannon arweinydd Capel y Nant, Clydach.*

## Open Doors

Cynhaliwyd cyfarfod ingol yn adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd gan elusen Open Doors. Noddwyd y digwyddiad gan Darren Miller AS ac fe lywyddwyd gan Sam Rowlands AS. Wedi agoriad byr gan Jim Stuart, cynrychiolydd Open Doors yng Nghymru, fe wahoddwyd Timothy i rannu ei stori. Mae Timothy yn hanu o Ogledd Corea ac yno mae pob crefydd yn waharddedig ac unrhyw fynegiant o ffydd yn cael ei erlid yn llym. Disgrifiodd y modd y mae'r boblogaeth yno yn cael eu cyflyru i ystyried teulu Kim Jong Un fel pobl ddwyfol. Gosodi'r delwau a lluniau ohono ym mhob man ac fe orfodir y boblogaeth i fod yn ufudd. Ei daid Kim Il Sung oedd yr unben cyntaf pan sefydlwyd y wlad ym 1948, dilynwyd ef gan ei fab Kim Jong Il sef tad Kim Jong Un. Felly, am dros 70 mlynedd y maent wedi rheoli'r wlad yn llym. Dim ond gwylio rhaglenni swyddogol y wladwriaeth gall y boblogaeth wneud ac nid oes ganddynt fynediad i'r we fyd-eang. Fe'u dysgir fod y Beibl yn llyfr drwg ac na ddylai unrhyw un ei ddarllen. Os canfyddant eich bod yn Gristion y mae perygl i chi gael eich dienyddio. Os na ddigwydd hynny gallant eich gyrru i wersylloedd llafur am weddill eich oes. Ar ben hynny y maent yn arestio eich teulu ac yn eu cosbi hwy hefyd hyd yn oed os nad ydynt yn Gristnogion.

### Dirdynnol

Ceisiodd Timothy ddianc o'r wlad ddwywaith. Y tro cyntaf fe gafodd ei ddal yn Tsieina a'i yrru yn ôl. Ond yr ail dro bu'n llwyddiannus er iddo wynebu profiadau hunllefus. Disgrifiodd fel cafodd ef a nifer o garcharorion eraill, wedi iddynt ddianc i Tsieina, eu rhoi mewn cell fechan dros nos. Nid oedd digon o le i droi nac i orwedd. Felly roedd y carcharorion y cysgu gefn wrth gefn. Un noson teimlai'r gŵr y tu cefn iddo yn pwyso'r drwm iawn arno. Dywedodd wrtho am beidio, ac wrth droi ei ben sylweddolodd fod y dyn wedi marw. Ond y tro hwn ni chawsant eu gyrru yn ôl i Ogledd Corea, yn hytrach fe'u hanfonwyd i'r Philipinau. Rhoddodd dieithryn Feibl iddo ac yn raddol daeth i ffydd yn Iesu Grist. Bellach y mae'n byw ym Manceinion, Lloegr, gyda'i wraig a'i ddau o blant. Wrth gwrs yr oedd yn falch iawn o gael dod atom i Gymru gan ei fod yn ymwybodol o hanes y Cymro Robert Germain Thomas a aeth â Beiblau i Gorea.







### Rhestr wylio

Bwriad y cyfarfod oedd tynnu sylw at yr erlid y mae Cristnogion yn ei wynebu ar hyd a lled y byd a'r angen i ni gefnogi elusennau fel Open Doors sydd yn gallu gwneud gwahaniaeth. Ar ddydd Mercher

*parhad ar dudalen 2*

# Open Doors – *parhad*

15 Ionawr fe lansiwyd 'Rhestr Wylio'r Byd' ganddynt sy'n rhestru'r gwledydd hynny lle mae erledigaeth ar ei waethaf. Bydd y fersiwn Cymraeg ar gael tua dechrau mis Mawrth, a gellir archebu copïau yn rhad ac am ddim. Gellir gweld rhestr 2025 trwy fynd i: www.opendoorsuk.org/persecution/world-watch-list

Eleni mae'r deg uchaf ar y rhestr wylio fel a ganlyn:

1. Gogledd Corea. 2. Somalia. 3. Yemen. 4. Libya. 5. Swdan. 6. Eritrea. 7. Nigeria. 8. Pacistan. 9. Iran. 10. Afghanistan

Ein dyletswydd ni mewn sefyllfaoedd o'r fath fel Cristnogion rhydd yw cefnogi elusennau fel hyn trwy gyfrannu'n ariannol, gweddïo a chysylltu gyda'n haelodau seneddol yn tynnu eu sylw at sefyllfaoedd o erlid.

# Glynarthen, Ceredigion

Bu dathlu brwdfrydig o eni gwyrthiol y Meseia Iesu yng Ngheredigion a hynny yng nghapel Glynarthen. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gofiadwy gan blant ac ieuenctid yr ysgol Sul. Yn dilyn ar addoliad graenus fe aethom i'r festri er mwyn cael te ac fe ymwelodd yr hen Siôn Corn gan ei fod wedi clywed am ffyddlondeb y plant trwy gydol y flwyddyn.



# Pisgah, Talgarreg, Ceredigion

Yn yr un modd bu dathliadau byrlymus o dan arweiniad disgyblion ysgol Sul, Pisgah, Talgarreg, a hynny ar y Sul cyn y Nadolig. Daeth tyrfa ynghyd i fod yn rhan o'r gwasanaeth, gan gefnogi athrawon a phlant yr ysgol Sul. Roedd yr oedfa'n gyfle arbennig i ddathlu genedigaeth yr Iesu gan eu hysgogi ymlaen i flwyddyn arall o ddod i adnabod y Gwaredwr.

**Carys Ann**




# Carol Swper

Wel, mae dydd Nadolig wedi mynd heibio eto am flwyddyn arall! Ond nid felly tymor y plygeiniau.

Daw'r gair Cymraeg 'plygain' o ymadrodd Lladin sy'n golygu 'caniad y ceiliog'. Yn wreiddiol, roedd yn enw ar wasanaeth yn eglwys y plwyf yn gynnar ar fore dydd Nadolig. Mae rhai plygeiniau'n dal i gael eu cynnal ar fore'r Nadolig, ond gydag amser daeth yn fwyfwy cyffredin iddynt gael eu cynnal gyda'r hwyr, a'u cynnal hefyd unrhyw bryd yn ystod misoedd Rhagfyr ac Ionawr. Gydag amser hefyd gwelwyd cynnal plygeiniau mewn capeli Anghydffurfiol yn ogystal ag mewn eglwysi Anglicanaidd.

Ar fore dydd Nadolig, yn dilyn gwasanaeth y plygain, byddai pobl yn mynd i dai ei gilydd i gael brecwast. A phan symudodd y plygeiniau i'r hwyr, daeth yn arfer i bobl gyd-swpera yn dilyn y gwasanaeth.



Tua dechrau'r ugeinfed ganrif, daeth yn arfer i gloi'r 'Blygien Fawr' yn Eglwys Llanfihangel-yng-Ngwynfa trwy ganu'r garol sy'n dechrau 'Cydganed dynoliaeth am ddydd gwaredigaeth'. Lledodd yr arfer, nes ei bod yn draddodiad bellach gloi'r gwasanaethau plygain yn gyffredinol trwy ganu'r garol honno. 'Carol y Swper' yw'r enw a roddir arni, ac mae'n garol addas iawn i'w chanu yn union cyn i bobl fynd i gyd-swpera, oherwydd y geiriau hyn yn y pennill olaf:

> Mae heddiw'n ddydd cymod, a'r
> swper yn barod,
> A'r bwrdd wedi'i osod; O! brysiwn.

Richard Owen, amaethwr o Lanfachraeth ym Môn, a luniodd y garol hon rywbryd yn yr 1840au. Tri phennill ohoni a genir fel arfer erbyn hyn, ond roedd y garol wreiddiol yn ddeg o benillion i gyd, a'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar groeshoeliad Iesu Grist a'i atgyfodiad.

Yn Nameg y Mab Afradlon, mae'r tad yn trefnu gwledd fawr i ddathlu dychweliad ei fab edifeiriol. Ac mae'r Beibl yn llawn sôn fod Duw nid yn unig yn trefnu ffordd o waredigaeth trwy Grist a'i groes, ond hefyd yn darparu gwledd dragwyddol i'r rheini sy'n rhoi eu ffydd yn y Gwaredwr. Ac mae meddwl am y 'swper' rhyfeddol hwnnw yn peri i Richard Owen dorri allan mewn gorfoledd yn niwedd ei garol:

> Mae'r dwylo fu dan hoelion yn derbyn
> plant afradlon
> I wlad y Ganaan nefol i wledda yn
> dragwyddol.
> Amen, Amen. O! moliant byth, Amen.
> Haleliwia i'r Meseia sy'n maddau
> byth, Amen.

Wel, haleliwia yn wir!

E. Wyn James, Caerdydd

(*Munud i Feddwl*, BBC Radio Cymru, dydd Llun, 30 Rhagfyr 2024)

# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 2025



Cymuned fynachaidd Bose yng ngogledd yr Eidal (Wikipedia)

## A wyt ti'n credu hyn?

### Cyflwyniad i'r deunydd addoli

Eleni, paratowyd y dathliad gan gymuned Bose, mynachlog eciwmenaidd o frodyr a chwiorydd yng ngogledd yr Eidal. Yn Bose mae bywyd y gymuned yn seiliedig ar rythm gweddïo rheolaidd. Wrth i'r clychau alw'r chwiorydd, y brodyr a'r gwesteion i weddïo, maent oll yn ymgynnull yn yr eglwys.

Wrth i ni ddathlu 1,700 o flynyddoedd ers Cyngor Nicea, mae'r gredo honno'n ganolog i'r deunydd addoli. Yng ngoleuni hynny, mae'r darlleniadau o'r ysgrythur ar gyfer eleni'n canolbwyntio ar gredu.

Nodwedd arbennig arall o'r addoliad eleni yw cynnwys ysgrifenwyr Cristnogol cynnar, yn fwyaf nodedig yn ystod yr ymbiliau. I chwiorydd a brodyr Bose, mae'r awduron hyn yn ffynonellau byw ar gyfer eu bywyd ynghyd heddiw.

Yma, rhoddir blas ar y gwasanaeth yn yr ymbiliau a baratowyd. Gellir cael hyd i'r adnoddau Cymraeg yn gyflawn drwy ddilyn y ddolen hon i wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon: Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2025 - CTBI

### Ymbiliau

Arweinydd — Yn ein hymbiliau byddwn yn uno'n gweddïau heddiw â ffydd yr Eglwys yn y canrifoedd pell.

Darllenydd 1 — Oherwydd o ddim y gwnaed popeth, a byddai eu bodolaeth yn suddo'n ddim eto, pe na bai Awdur pob peth yn ei chynnal trwy lywodraeth ei law.
(Grigor Fawr [c. 540–604])

Cynulleidfa — **Arglwydd bywyd, o'th law a thrwy dy ragluniaeth yr ydym yn derbyn yr holl greadigaeth. Dysga ni i fyw yn dy fyd yn ofalgar gan geisio cyfiawnder ar gyfer popeth a greaist.**

Darllenydd 2 — Hyn a alwaf yn ffydd: y goleuni eglur sydd trwy ras yn gwawrio yn yr enaid, sy'n cynnal y galon, ac sy'n cynnig rhodd gobaith.
(Isaac o Ninefe [Seithfed ganrif])

Cynulleidfa — **Dduw cariadus, caniatâ inni rodd gobaith yn hael mewn byd y mae ymraniadau a thrais yn ei flino. Nertha'r rhai ymhlith dy bobl y mae difaterwch ac ofn yn eu llethu.**

Darllenydd 1 — Pa ryfedd wedyn, os, wrth nesáu at Dduw, ein bod yn gyntaf oll yn proffesu ein bod yn credu, gan weld nad oes modd heb hynny fyw hyd yn oed fywyd cyffredin.
(Ruffin o Acwileia [c. 344-411])

Cynulleidfa — **Dduw trugarog, maddau inni am yr adegau rydym wedi methu â byw bywyd cyffredin fel Cristnogion. Tyn ni yn ddyfnach at ffydd unol ynot ti, er mwyn i ni allu tystiolaethu i'r byd.**

Darllenydd 2 — Mae gwirionedd yn gweld Duw, a doethineb yn myfyrio ar Dduw, ac o'r ddeubeth hyn daw trydydd, sef ymhyfrydu sanctaidd a rhyfeddol yn Nuw, hanfod cariad.
(Iwlian o Norwich [c.1343– hyd ar ôl 1416])

Cynulleidfa — **Ddiddanydd nefol, gweddïwn y gallwn ymddiried yn fwy yn rhoddion dy wirionedd, dy ddoethineb a'th gariad nag yng nghlyfrwch ein meddyliau ninnau.**

Darllenydd 1 — Ymddangosodd goleuni Crist a gwnaeth i dywyllwch y carchar ddiflannu, gan gysegru ein genedigaeth a dinistrio marwolaeth, a chan ein rhyddhau o'r llyffetheiriau a fu'n ein caethiwo.
(Irenaeus o Lyon [c. 135–198])

Cynulleidfa — **Arglwydd trugarog, arwain ni i weithio gyda'n gilydd fel y gallwn ddod â'th oleuni a'th ryddid lle bynnag y bo tywyllwch a gorthrwm, dioddefaint ac anghyfiawnder.**

Arweinydd — Fel brodyr a chwiorydd Iesu, gweddïwn gyda'n gilydd yn y geiriau a ddysgodd yntau i ni:

Cynulleidfa — **Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd ...**

# Hawlio heddwch ddoe a heddiw – Cofio'r Parch. Gwilym Davies (1879–1955)



**2–3.30yp, Sul, 26 Ionawr 2025**
**Capel y Bedyddwyr, Ton-y-felin**
**36 Heol Ton-y-Felin**
**Caerffili CF83 1PA**

**Siaradwyr:**
**Siân Rhiannon, Aled Eirug**
**Siân Lewis (Urdd Gobaith Cymru)**
**Gethin Rhys (Cytûn)**
**Darperir cyfieithu ar y pryd**
**Croeso i bawb – mynediad am ddim**

Ganwyd y Parch. Gwilym Davies ym Medlinog. Roedd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr, yn ysgrifennydd i Undeb Cynghrair y Cenhedloedd yng Nghymru, sylfaenydd Neges Heddwch ac Ewyllys Da Ieuenctid Cymru, ac yn drefnydd Apêl Heddwch Eglwysi Cymru i eglwysi'r Unol Daleithiau yn 1925.

Mae hwn yn rhan o gyfres o achlysuron a drefnir i gofnodi canmlwyddiant apêl heddwch 1925, dan nawdd Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru), Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Academi Heddwch a phartneriaid eraill. Cefnogir y cyfarfod hwn gan Gymdeithasau Hanes Gelligaer a Merthyr Tudful, ac eglwysi lleol.

**Apêl Heddwch yr Eglwysi 1925 a'i chefndir**

Ym 1924 cyflwynwyd deiseb goffa ryfeddol a lofnodwyd gan bron i 400,000 o fenywod yng Nghymru at fenywod yr Unol Daleithiau America, i annog Llywodraeth yr Unol Daleithiau i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Mae canmlwyddiant yr ymgyrch hon wedi'i ddathlu trwy ddychwelyd y ddeiseb o'r Unol Daleithiau i Gymru, a digido'r llofnodion – gan alluogi disgynyddion heddiw i ddatgelu 'hanes cudd' o weithredu dros heddwch gan y genhedlaeth hon o hen neiniau a mamau-cu. Mae rhagor o wybodaeth am hanes yr apêl yn: www.DeisebHeddwch.Cymru

Roedd Deiseb Heddwch y Merched yn gamp ryfeddol, ond ni chyflawnodd ei phrif nod ar unwaith. Yn ôl yng Nghymru, bu Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru (WLNU) yn ystyried beth i'w wneud nesaf. Penderfynwyd gwahodd arweinwyr cymunedau ffydd Cymru – yr eglwysi Cristnogol i bob pwrpas – i arwyddo apêl goffa debyg, **Deiseb Heddwch yr Eglwysi**, i Gyngor Ffederal Eglwysi Crist yn America. Mae llawer o'r dogfennau wedi'u digido a gellir eu gweld, ynghyd â ffilm nodwedd esboniadol fer, yn: https://www.wcia.org.uk/1925-churches-peace_appeal/

Cyfleodd y Parchg Gwilym Davies, Ysgrifennydd yr WLNU, yr apêl yn bersonol i'r Cyngor Ffederal yn eu cyngres flynyddol yn Detroit yn Nhachwedd–Rhagfyr 1925. Heddiw, mae cymunedau ffydd Cymru (trwy Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru) yn gweithio, gyda Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Academi Heddwch Cymru, Cymdeithas y Cymod ac eraill i goffáu canmlwyddiant yn 2025, trwy wneud y canlynol:

- treiddio'n ddyfnach i'r hanes
- coffau'r Apêl mewn lleoliadau yng Nghymru sydd â chysylltiadau arbennig â'r llofnodwyr – gan gynnwys Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Cwm Rhymni (cartref Gwilym Davies) ac eraill
- gweithio gyda chenedlaethau heddiw i weld beth fyddai Apeliadau Heddwch gan gymunedau ffydd yn eu dweud yn 2025 – ac i bwy y dylid cyfleu'r rhain



Llun: Gethin Rhys a Craig Owen yn dal Apêl 1925 yn Llyfrgell Teml Heddwch ac Iechyd Cymru

- ysbrydoli cenhedlaeth newydd i archwilio sut y gall gwahanol grefyddau gydweithio a chyfrannu at y gwaith o chwilio am heddwch byd-eang heddiw.

**Rydym am i hon fod yn bartneriaeth rhwng haneswyr, arweinwyr ffydd a charedigion heddwch yng Nghymru, yr Unol Daleithiau a'r tu hwnt.**

**A allech chi helpu gydag unrhyw ran o'r gwaith hwn? Os felly, cysylltwch â:**

- Gethin Rhys [ar gyfer cyswllt rhwng cymunedau ffydd] gethin@cytun.cymru
- Craig Owen [ar gyfer yr agweddau hanesyddol a heddwch]: craigowen@wcia.org.uk

***Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!***
Ar wefan Cytûn gallwch wylio fideo byr am ailddarganfod yr Apêl a'i harwyddocâd, a gweminar a drefnwyd gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn treiddio'n ddyfnach i'r hanes (y ddau yn Saesneg). Ceir hefyd esboniad llawnach o'r cynllun canmlwyddiant, a sut i gyfrannu ato yn ymarferol ac yn ariannol (yn y ddogfen PDF o dan y fideos.)
https://www.cytun.co.uk/hawlio-heddwch-canmlwyddiant-apel-heddwch-yr-eglwysi-1925/


S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 26 Ionawr, am 7:30yh**
**Cofio'r Holocost**
Bydd Lisa Gwilym yn Llundain i nodi Diwrnod Cofio'r Holocost, 80 o flynyddoedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Ymhlith y gwesteion bydd yr hanesydd Cai Parry Jones a'r unawdydd llinynnol Rhian Porter.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 26 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'n Parchedig Megan Williams

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 26 Ionawr, am 12:00yp**
Gwasanaeth dan ofal Sian Rees, Cymdeithas y Beibl

# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 3: Oferedd Bywyd**

**Llyfr y Pregethwr 1:3–11**

Mae Llyfr y Pregethwr yn llyfr diddorol gan ei fod yn taflu dŵr oer i raddau ar y pwyslais a geir yng ngweddill yr Hen Destament fod ystyr i bopeth. Mae pennod gyntaf Genesis yn gweld pwrpas a gwerth mewn bywyd wrth adrodd am y Crëwr yn ymhyfrydu yn ei greadigaeth. Gosododd Adda ac Efa yng ngardd Eden gan orchymyn iddynt lenwi'r ddaear a'u darostwng gan ofalu amdani (Genesis 2:15). Mae'r thema fod ystyr i fywyd ac i genedl Israel yn un amlwg gan fod Duw wedi eu galw i bwrpas. Ac er y profiadau anodd a ddaw i'w rhan, yn y pen draw mae bywyd yn ystyrlon.

Ond yn Llyfr y Pregethwr ceir pwyslais gwahanol. Er iddo fwynhau bywyd, dywed fod yr hyn sy'n digwydd ar y ddaear yn ddirgelwch llwyr iddo. Mae ceisio treiddio i'r dirgelwch, meddai, fel 'ymlid gwynt' (e.e. Pregethwr 1:17; 2:11; 4:4). Gwastraff amser yw chwilio am ystyr.

Yn yr adnodau hyn mae'n ceisio profi gwirionedd ei osodiad fod bywyd yn ddiystyr. Mae'n dechrau gyda chwestiwn rhethregol sy'n ymwneud â'r ddynoliaeth (1:3), ac yna'n symud ymlaen at y bydysawd (1:4–7) cyn rhoi sylw pellach i'r ddynoliaeth (1:8–9). Yn nwy adnod olaf yr adran (1:10–11), ceisia achub y blaen ar y sawl a fyddai'n anghytuno â'i safbwynt.

**Cwestiwn**

Mae'n gofyn y cwestiwn rhethregol, "Pa elw sydd i neb yn ei holl lafur, wrth iddo ymlafnio dan yr haul?" (Pregethwr 1:3). Mae'r ymadrodd 'dan yr haul' yn ymddangos lawer gwaith yn y llyfr, a'i ystyr yw 'ar y ddaear'. Trwy ofyn y cwestiwn, mae'n rhagdybio mai "dim" fyddai'r ateb. Beth yw pwrpas gweithio'n galed trwy gydol ein hoes os nad oes unrhyw fwynhad? Mae'n gwestiwn digon teg.

Â yn ei flaen i roi enghreifftiau o'r gwagedd (Pregethwr 1:4–11). Yr enghraifft gyntaf yw'r cenedlaethau. Er bod y byd yn sefydlog, cyn gynted ag y mae un genhedlaeth yn mynd, daw un arall yn ei lle. Aiff bywyd yn ei flaen yn ddigyfnewid, fel tiwn gron. Yna rhydd dair enghraifft o fyd natur. Cyfeiria at yr haul, y gwynt a'r nentydd, gan nodi diflastod cylchdro'u bodolaeth. Mae hyn mor wahanol i'r hyn a welwn yn y Salmau, lle mae'r awduron yn gweld rhyfeddod y cread a'n bod yn gallu gweld gogoniant y Crëwr ynddo. Wrth edrych ar y nefoedd, mae awdur Salm 8 yn ystyried y lloer a'r sêr fel gwaith Duw (Salm 8:3). Mae Salm 19 yn adleisio hyn: 'Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo' (19:1). Gweler hefyd Salm 136: 5–9 a Salm 104:1–4, sy'n mynegi'r un safbwynt. Yma mae agwedd gadarnhaol tuag at y cread lle y gwelir haelioni a chariad Duw.

**Undonedd**

Ond mae'r Pregethwr yn edrych ar yr un byd, ac yn ei weld mewn goleuni gwahanol. Nid tyst i'r cariad dwyfol sy'n para am byth yw taith ddyddiol yr haul. Nid campwr llon 'yn barod i redeg cwrs' mohono, ond un sy'n 'brysio yn ôl i'r lle y cododd' (Pregethwr 1:5). Wrth weld yr haul yn croesi'r ffurfafen, y darlun a ddaw i feddwl yr awdur yw taith lafurus hen ŵr blinedig sy'n rhuthro adref i noswylio wedi lludded y dydd, cyn gorfod dechrau eto. Darlun negyddol sydd ganddo hefyd o'r gwynt a'r nentydd.

Ni wêl y Pregethwr ddim ond undonedd diystyr yn nhrefn y bydysawd. Daw i'r un casgliad am fywyd bob dydd: 'Yr hyn a fu a fydd' (Pregethwr 1:8). Mae hanes yn mynd mewn cylch, yn gwbl ddigyfeiriad, ac felly 'nid oes dim newydd dan yr haul' (1:9).

**Neges ddadleuol**

Mae ei agwedd tuag at fywyd yn mynd yn groes i ddealltwriaeth y proffwydi. Er enghraifft, pwyslais Eseia i'w gyfoedion mewn caethiwed ym Mabilon yw fod cyfnod newydd ar ddechrau yn eu hanes. Roedd yn hawdd iawn i'r caethgludion gasglu bod Duw wedi cefnu arnynt. Na, meddai'r proffwyd. Ei neges ef i'r bobl yw fod Duw wedi maddau iddynt a'i fod wrthi'n ddiwyd yn paratoi'r ffordd iddynt ddychwelyd i Jwda. Gweler Eseia 42:9; hefyd 43:18–19.

Felly, o gymharu ei agwedd negyddol at y greadigaeth a'r byd â safbwynt awduron Beiblaidd eraill, mae'n amlwg mai torri cwys unig a wna'r Pregethwr wrth ddatgan nad oes 'dim newydd dan yr haul' a bod pob rhan o fywyd yn ofer.

**Be 'dych chi'n feddwl?**


1. Yn eich barn chi, pa agweddau ar fywyd yn y byd modern sy'n annealladwy neu ofer?
2. Ym mha ffyrdd y mae eich ffydd yn eich cymell i anghytuno â'r Pregethwr a gweld cynnydd neu ddatblygiad yng nghwrs y byd?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Y Parchedig Ddr Wynford Thomas (1953–2024)

Bu farw'r Parchedig Wynford Thomas yn frawychus o sydyn ar ei aelwyd yn Llanymddyfri ar ddydd Gwener, 29 Tachwedd, 2024. Ef oedd unig blentyn Christopher a Cathryn Eluned Thomas. Roedd ei rieni yn Gristnogion o argyhoeddiad dwfn ac yn addoli yn Eglwys Llanfair-ar-y-bryn. Roedd sgwrsio am yr Efengyl yn rhan ganolog o fywyd yr aelwyd. Soniai am ei fam yn ei gwaeledd olaf yn canu emyn Alfa, 'Rwy'n canu fel cana'r aderyn', sy'n cynnwys y frawddeg, 'Mae'r Iesu yn Geidwad i mi'. Wrth iddi ganu'r geiriau, 'Mae'r Iesu yn Geidwad i mi,' nid canu geiriau yn ddifeddwl a wnâi ond canu o brofiad ac o adnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu Grist. Gwerthfawrogai Wynford yn fawr iawn y fagwraeth a gafodd a gwyddom i'w ofal dros ei rieni yn wyneb afiechydon creulon fod yn dyner a diguro.



### Gyrrwr a cherddor

Ymadawodd â'r ysgol yn bymtheg oed a chael sawl swydd cyn 'gweithio ar yr ambiwlansys' chwedl yntau. Cafodd brofiadau a adawodd argraff ddofn arno fel gyrrwr ambiwlans. Roedd Wynford yn bianydd ac yn organydd dawnus. Yn ifanc bu'n cyfeilio mewn eisteddfodau a deuai i'r adwy i ganu'r organ mewn oedfaon yn dilyn ei ymddeoliad. Gyda Wynford wrth yr organ byddai yna ddyblu a threblu'r gân. Credai y dylasai pawb sydd ag anadl foli'r Arglwydd â'i holl nerth.

### Hyfforddiant

Ymdeimlai â'r alwad i'r weinidogaeth. Roedd wedi ei alw i'r gwaith gan ei Arglwydd a chafodd pob cefnogaeth gan y Parchedig Walford Jones a chynulleidfa Capel Newydd, Llandeilo. Gwerthfawrogodd yn fawr iawn yr hyfforddiant a dderbyniodd yng Ngholeg yr Annibynwyr yn Aberystwyth. Bu'r Prifathro Dewi Eirug Davies yn drwm ei ddylanwad arno a chyfeiriai'n aml at ei ddarlithoedd ar Athrawiaeth Gristnogol a Gweinidogaeth yr Ysbryd Glân. Yn dilyn derbyn ei radd gyntaf enillodd radd meistr mewn diwinyddiaeth.

Ymhen blynyddoedd dderbyniodd radd doethur am ei waith ymchwil arbennig ar Matthias Maurice. Roedd Wynford, fel Matthias Maurice, yn Annibynnwr o argyhoeddiad dwfn am fod gwreiddyn Annibyniaeth yn y Beibl. Gwelai Wynford mai cynulliad o bobl Dduw mewn lle arbennig ar amser neilltuol yw 'eglwys' yn amlach na pheidio yn y Testament Newydd. Gwelai hefyd na sonnir yn y Testament Newydd am y gynulleidfa leol fel aelod neu gangen o gorff trefniadol hollgynhwysfawr. Ymhyfrydai hyd y diwedd ei fod yn aelod o eglwys Bryn Seion, Pontseli. Yno profai gymdeithas gynnes yn yr Arglwydd ac i bob pwrpas roedd wedi parhau'n weinidog yr eglwys honno.

### Galwad

Derbyniodd alwad gan eglwysi Bethel Newydd, Garnant a Bryn Seion, Glanaman a'i ordeinio ganddynt yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist ym Medi 1986. Ymhen dwy flynedd derbyniodd alwad gan eglwysi Ebeneser, Castellnewydd Emlyn, Bryn Seion, Pontseli a Chapel Iwan gan ychwanegu Capel Degwel, Llandudoch at yr ofalaeth ym 1999. Ymddeolodd yn 2016 gan ddychwelyd i fyw yn nhref ei fagwraeth. Rhoes bwys mawr ar fugeilio'r aelodau ar eu haelwydydd ond paratoi ar gyfer y pulpud oedd yn cael y flaenoriaeth ganddo bob amser. Byddai'n paratoi yn drylwyr ar gyfer y pulpud a'i bregethau Beiblaidd yn canoli ar ryfeddod gras a chariad Duw yn yr Arglwydd Iesu Grist. Roedd yna ddyhead dwfn yn ei galon ar i bobl ddod i adnabod yr Arglwydd fel eu Gwaredwr personol ac yna eu hannog i dyfu mewn gras gan wasanaethu'r Arglwydd yn ffyddlon.

### Iesu Grist

Bu farw ar drothwy tymor yr Adfent wrth i gredinwyr baratoi i ddathlu dyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist i'r byd yn Waredwr pechaduriaid. Byddai Wynford yn sicr o bwysleisio bod y tymor hwn hefyd yn galw arnom i edrych ymlaen at Ailddyfodiad Crist pan fydd yn sefydlu ei Deyrnas yn ei chyflawnder ac y gwelir dymchwel y Diafol a'r holl alluoedd sydd wedi cynllwynio i ormesu dynion a merched. Loes enbyd iddo oedd gweld dynion a merched yn ddifater ynghylch yr efengyl.

### Sicrwydd y crediniwr

Un peth sy'n ein taro ni wrth ddarllen y Testament Newydd yw bod y Cristnogion a ddarlunnir ynddo yn bobl sicr iawn o'u cred a phendant iawn eu ffydd. Yn angladd Wynford darllenwyd datganiad herfeiddiol Paul yn ei lythyr at Gristnogion Rhufain – geiriau a ddewiswyd ganddo i'w darllen yn angladd ei fam: 'Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grëwyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.' (8:38,39) Ni allwn ni ddadlau â'r apostol Paul, naill ai, yr ydym yn derbyn yr hyn mae'n ei ddweud neu yr ydym yn ei wrthod. Yr unig ymateb synhwyrol fyddai sibrwd ein 'amen' yn ostyngedig.

Roedd Paul yn llwyr argyhoeddedig na fyddai neb na dim mewn bywyd nac angau yn ei wahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist. Nid yw ffydd Paul yn unigryw. Bu'r fath ffydd yn nodweddiadol o saint yr oesoedd ac o'r Parchedig Wynford Thomas a wyddai drwy ras fod ei Geidwad yn fyw – y Ceidwad oedd wedi marw drosto ar y Groes ac sydd yn eiriol drosto yn y nef. Byddai yn ddi-os am dystio gydag un o emynwyr sir ei febyd,

> Trwy ras 'rwyf, Arglwydd, ger dy fron
> Yn rhoi fy nghalon iti;
> Ti'm ceraist i, er maint fy mai –
> Ni allaf lai na'th garu.
>
> (John Jones)

Diolchwn am un o blant yr Arglwydd oedd mor gadarn ei ffydd ac yn caru ei Waredwr â'i holl galon.

**Andrew Lenny**


# Barn Annibynnol

## Emynau plentyndod

Y tro diwethaf i mi gyfrannu at y golofn hon, ym mis Medi y llynedd, y pwnc oedd fy 'alergedd' at gymanfaoedd canu a phrofiad poenus paratoi ar eu cyfer yn yr ysgol Sul slawer dydd.

Mae Gwyneth Lewis yn mynegi teimladau tebyg yn ei chyfrol ddiweddaraf, *Nightshade Mother.* Cyfrol hunangofiannol yw hon yn dadlennu agwedd wenwynig mam Gwyneth, Eryl Lewis, athrawes Saesneg eithriadol o uchel ei pharch, at ei merch ddisglair. Mae'n gyfrol bwerus ond gall fod yn anghyfforddus i'w darllen gan ddangos na ŵyr neb beth sy'n digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig.

Mae Gwyneth yn disgrifio'r gymanfa ganu fel 'a religious karaoke festival'. Os bydd y gynulleidfa'n canu'n arbennig o dda, meddai 'we're forced to sing the hymn again ... Cold and unsmiling, I look at him (and in those days it was always a man) [yr arweinydd] resentfully, willing the whole occasion to be over as soon as possible. Maybe this is why Eryl hates chapel. She has a point.'




### Dring i fyny yma

Er mor anhapus yw fy atgofion o ddysgu emynau at y gymanfa – yn enwedig y sol-ffeio – mae nifer o'r emynau hynny wedi gwreiddio'n ddwfn ynof ac yn brigo i'r wyneb weithiau yn hollol annisgwyl. Rwy'n cofio ffeindio'n hunan yn canu 'Er dy fod yn frenin' wrth olchi llestri yn y coleg a 'Dring i fyny yma' wrth roi bath i'r plant pan oedden nhw'n fach.

Erbyn hyn, mae MS arna i sy'n golygu fy mod yn cerdded yn araf ond hefyd weithiau'n gorfod mynd i'r tŷ bach ar frys – cyfuniad anffodus! Rwy wedi canfod bod canu wrth gerdded yn helpu wrth dynnu fy sylw – *distraction tactics*! Dim fi sy'n penderfynu beth i'w ganu – rwy'n canu beth bynnag ddaw i 'mhen ond mae fy *repertoire* yn eithaf cyfyng ac ansoniarus. Y ffefrynnau yw 'Teddy bears' picnic', 'Who killed Cock Robin?', 'Melin Tre-fin' (fersiwn cerdd dant, heb y cyfeiliant!), a thri emyn o'r gorffennol, 'O! Rwyf yn hoffi canu', 'Yr oen di-fai', ac 'I bob un sy'n ffyddlon'.

### Teddy bears

Pam, meddech chi. Dim syniad. Dw i ddim wedi clywed 'Teddy bears' picnic' ers degawdau. Yr unig gof sydd gen i o 'Who killed Cock Robin?' yw ei chanu, ugeiniau o weithiau, ar y bws ar drip ysgol Llandysul i Ewrop yn 1977 – hi a 'The Holy City', cyfuniad anghydnaws! A 'Melin Tre-fin' – darn gosod mewn rhyw eisteddfod efallai? O ddyddiau'r ysgol Sul y daw 'O! rwyf yn hoffi canu' ac 'Yr oen di-fai'. Y gyntaf ohonynt oedd yr unig emyn roedd fy mrawd yn ei hoffi yn y *Detholiad* un flwyddyn, a phan gafodd ddewis emyn i'w ganu ryw dro, dyma a ddewisodd. Gwaetha'r modd, rhoddodd rif y dôn yn lle'r geiriau, ro'n i'n rhy swil i gamu mewn a chywiro'r gwall ac fe ganwyd emyn gwahanol. Am siom! Un o'n hoff emynau yn *assembly* ysgol Llandysul oedd 'I bob un sy'n ffyddlon' ond prin rwy'n ei glywed erbyn hyn.

### Cytganau

Un peth annisgwyl am y tri emyn hyn sy'n mynnu brigo i'r wyneb yw bod i bob un gytgan. Dw i ddim erioed wedi hoffi emynau â chytgan – maen nhw'n dwyllodrus o hir! Tybed all rhywun gynnig esboniad – cerddorol neu seicolegol – pam mai'r caneuon hyn o'r gorffennol sy'n cynnig eu hunain i mi ar hap? Does dim sôn am ganeuon Geraint Jarman, Steve Eaves, Bwncath na Pedair chwaith, sy'n llawer mwy ffresh yn fy meddwl. Hefyd, cyn dechrau oedfa yn y capel, pan fydd yr organyddes yn chwarae emyn-donau, os yw'n dewis 'Miles Lane', 'Franconia', 'Hyfrydol', 'Blaenwern', neu 'Hanover'* y geiriau Saesneg sy'n dod i fy meddwl ac, yn aml, rwy'n methu'n lân â chofio'r geiriau Cymraeg, er fy mod wedi'u clywed a'u canu ddegau o weithiau ers i mi glywed y geiriau Saesneg ddiwethaf yn yr ysgol.




Ond pwy all anghofio, 'Pavilioned in splendour and girded with praise'?!

Felly, mae'n rhaid bod *assemblies* Ysgol Ramadeg Llandysul 1971–78, yn ogystal ag ysgol Sul y Tabernacl, Pencader 1964–71 wedi cael dylanwad pellgyrhaeddol iawn yn plannu'r tonau hyn yn fy isymwybod i frigo i'r wyneb ar adegau annisgwyl!

**Siân Eleri Roberts**

* Fuodd raid i fi gael dipyn bach o help ag enwau'r tonau!
Miles Lane: 'All hail the power of Jesus' name!' – 'Coronwch Ef yn ben'
Franconia: 'Blest are the pure in heart' – 'Yn wastad gyda thi ...' neu 'Fy ngorchwyl yn y byd ...'
Hyfrydol: 'Love divine, all loves excelling ...' – 'Marchog Iesu yn llwyddiannus ...'
Blaenwern: 'Love divine, all loves excelling ...' – 'Tyred Iesu i'r anialwch ...'
Hanover: 'O worship the king all-glorious above' – 'Fe dorrodd y wawr, sancteiddier y dydd'.

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Cofiadur 2024

Mae rhifyn Gaeaf 2024 o'r *Cofiadur* ar gael o Dŷ John Penri nawr.

Mae'n cynnwys Darlith Goffa Dr Pennar Davies a'r Dr R. Tudur Jones 2024 a draddodwyd gan y Parchg Ddr Alun Tudur ac erthygl yn seiliedig ar sgwrs a roddwyd gan Mr Richard Huws yng nghyfarfodydd yr Undeb 2024 am ei ewythr y Parchg Rhys Nicholas.

Os hoffech gopi yn rhad ac am ddim, cysylltwch â Thŷ John Penri i'w archebu: undeb@annibynwyr.cymru neu 01792 795888. Mae hefyd ar gael i'w ddarllen ar y we.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# O Fethlehem i'r Hendy-gwyn



Roedd llais y Parchg Munther Isaac, gweinidog ym Methlehem i'w glywed yn glir yn yr Hendy-gwyn y Nadolig yma. Ef oedd canolbwynt yr oedfa Nadolig gan yr oedolion ifanc ac yn arbennig y bregeth rymus a draddododd amser Nadolig flwyddyn yn ôl ar y thema 'Crist yn y rwbel'. Aeth fideo o'r bregeth yn 'viral' gan ennill canmoliaeth gan bobl ym mhob rhan o'r byd

Mae'r sefyllfa yn Gaza yn parhau yn dorcalonnus gyda 2.1 o bobl yn byw mewn ardal sydd yr un maint a hanner Sir Fôn.

Bydd llyfr gan Munther Isaac yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd Mawrth gyda'r teitl *Christ in the Rubble (Faith, The Bible and the genocide in Gaza)*. Diolch i Rhodri Darcy am baratoi fideo o'r bregeth ar gyfer yr oedfa a diolch i'r Parchg. Ronald Williams a Chymdeithas Heddwch yr Annibynwyr am ddod a Munther Isaac i'n sylw.



Hefyd fe gafwyd ein hoedfa Nadolig arferol dan ofal y plant a'r ieuenctid lle yr adroddwyd stori'r geni a rhoddwyd hanes rhai o arferion y Nadolig.

Yn Llanboidy cafwyd oedfa Nadolig hyfryd ar y cyd rhwng y Trinity ac Eglwys Sant Brynach ac fe gafwyd cystadleuaeth y siwmper Nadolig orau hyd yn oed!

Yn yr un modd cafwyd oedfa unedig fendithiol yn Llanddewi Efelffre lle daeth Cristnogion y pentref i gyd ynghyd i ddathlu y Nadolig

**Guto Llywelyn**

# Saron Creunant Nadolig



Mae'r Nadolig wedi bod yn brysur yn Saron, Creunant, diolch i Dduw. Dathlwyd trwy ginio Nadolig aelodau a ffrindiau yn y MAG yn y Banwen lle cawsom hwyl gyda'n gilydd. Fe gyrhaeddodd y dathliadau uchafbwynt yn ein cyngerdd carolau elusennol blynyddol lle codwyd dros £300 o bunnoedd at Eisteddfod yr Urdd Margam, 2025. Diolch am gwmni Band Jayne, Ysgol Gymraeg Blaendulais a Maer Castell-nedd.

## Carol a channwyll




Ar Sul 22 Rhagfyr cynhaliwyd oedfa dan olau'r gannwyll yn Saron Creunant gyda band bywiog a chanu arbennig oedd yn llwyddo i foli'r Arglwydd. Roedd y capel yn llawn ac roedd rhaid gosod cadeiriau ychwanegol yn y cysegr. Pregethwyd ar yr Iesu Agos - yr un a ddaeth yn agos a'r un sydd *am* fod yn agos at bob un drwy'r Ysbryd Glân. Efe sydd yn achub. Roedd pawb wedi mwynhau lluniaeth wedi'r oedfa ac fe dderbyniodd Rhys ac Elin anrhegion oddi wrth yr aelodau fel diolch am eu gwaith yn arwain yr eglwys dros y flwyddyn.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*